

CaBan

Llawlyfr y Modiwl

XCE-2210

Profiad Ysgol

BA Blwyddyn 2

BA CABAN Profiad Ysgol Blwyddyn 2 (XCE-2210)

Mae profiad ysgol yn rhan hanfodol o holl gyrsiau addysg gychwynnol athrawon. Mae'r modiwl hwn yn gyfle i arsylwi disgyblion ac athrawon yn yr ysgol, i roi cynnig ar syniadau newydd a phrofiadau proffesiynol ac, yn bwysicaf oll, i adfyfrio ar eich ymarfer eich hun a'i wella.

Yn eich lleoliad ym mlwyddyn 2, byddwch mewn dosbarth blwyddyn 3 - 6, gobeithio. Bydd y rhai sy'n cael lleoliad mewn dosbarth sylfaen yn cael eu lleoli mewn dosbarth blwyddyn 3-6 ym mlwyddyn 3 y rhaglen.

Bydd addysgeg eich lleoliad ym mlwyddyn 2 yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, beth bynnag eich grŵp blwyddyn.

Amcanion a diben cyffredinol

Bydd y modiwl hwn yn:

- Rhoi cefnogaeth i chi ddatblygu amrywiaeth o sgiliau yn annibynnol (gan gynnwys cryfhau eich gwybodaeth o'r Gymraeg i hyrwyddo 'Cymraeg Bob Dydd') ac ymarfer adfyfiriol i fodloni gofynion y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth i ddod yn athro cymwysedig a chyfrannu at y gymuned ddysgu;
- Sicrhau eich bod yn gwbl ymwybodol o sut mae cymhwyso gwybodaeth ac ymarfer adfyfiriol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog i ddisgyblion;
- Rhoi cefnogaeth i chi adnabod amrywiaeth eang o dechnegau'n annibynnol, er mwy adfyfrio'n feirniadol ynghylch eich datblygiad proffesiynol eich hun ac ymdoddi i amgylchedd yr ysgol;
- Rhoi cyfleoedd i chi ddatblygu dealltwriaeth o gynnwys, egwyddorion a chanolbwynt eich modiwlau blwyddyn 2 eraill yn eu cyd-destun.

Cynnwys y Modiwl

Byddwch yn treulio 48 niwrnod mewn ysgol i ddechrau dysgu sut mae dod yn ymarferwyr trwy eich profiadau mewn ysgolion arweiniol ac ysgolion rhwydwaith. Bydd hynny'n cynnwys:

- digwyddiadau addysgu ac adolygu wythnosol mewn clwstwr
- arsylwadau a datblygiad paratoadol
- ymchwil agos at ymarfer (ymchwiliadau ar raddfa fach)
- integreiddio i'r amgylchedd addysgu
- mentora a hunan-adfyfrio

Bydd seminarau a gweithgareddau yn ystod y diwrnodau yn yr ysgol arweiniol a'r sefydliad addysg uwch yn cysylltu'n agos â chynnwys pob un o fodiwlau'r ail flwyddyn ac yn adeiladu ar eich profiadau ym mlwyddyn 1

Cam 2: Integreiddio (SAU, ysgolion arweiniol ac ysgolion rhwydwaith)

Cam 3: Datblygu (ysgolion rhwydwaith gyda chefnogaeth yr ysgolion arweiniol a SAU)

Cam 4: Ymarfer a gweithredu (ysgolion rhwydwaith gyda chefnogaeth ysgolion arweiniol a SAU)

Cam 5: Ôl-drafod ac adfyfrio (SAU ac ysgolion arweiniol)

Bydd y camau hyn yn cynnwys:

- digwyddiadau addysgu ac adolygu wythnosol mewn clwstwr;
- arsylwadau a datblygiad paratoadol;
- integreiddio i'r amgylchedd addysgu;
- ymarfer a gweithredu sgiliau lefel uwch;
- mentora ac adfyfrio;

Asesu

Yn ystod y modiwl byddwch yn adfyfrio'n barhaus ar eich cynnydd gyda'ch cydweithwyr a'ch mentor ac yn uwchlwytho'r dystiolaeth berthnasol i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol. Ar ddiwedd y modiwl, byddwch yn dangos eich bod wedi gwneud cynnydd boddhaol yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Yn y modiwl hwn, caiff llwyddo neu fethu ei gofnodi yn y bwrdd arholi gan ddefnyddio'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Mae manylion asesu yn erbyn y safonau proffesiynol wedi eu cynnwys yn y llawlyfr asesu safonau proffesiynol ac mae manylion am sut i ddefnyddio'r cynllun dysgu personol ar gael ar-lein.

Deilliannau dysgu

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, byddwch yn gallu:

- Datblygu ymhellach amrywiaeth o sgiliau cynllunio ac asesu i sicrhau cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu sgiliau allweddol ar draws y cwricwlwm, themâu trawsgwricwlaidd ac astudiaethau ar sail pwnc;
- Dadansoddi a chloriannu eich ymarfer proffesiynol a dechrau dangos y gallu i gydweithio a sefydlu perthynas broffesiynol gyda mentoriaid/tiwtoriaid fel sail ar gyfer datblygu'n annibynnol;
- Adfyfrio'n effeithiol ar eich cynnydd mewn perthynas â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth;
- Gosod targedau priodol ar y cyd i weithio tuag at y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, a dechrau eu cyflawni.

Cymraeg Bob Dydd a'r Dimensiwn Cymreig

Tra byddwch ar brofiad ysgol, bydd disgwyl i chi hyrwyddo'r defnydd o **Gymraeg Bob Dydd** pryd bynnag a lle bynnag y bo modd, ar draws y cwricwlwm. Dylid defnyddio'r Gymraeg (Cymraeg Bob Dydd) yn naturiol fel ei bod yn rhan annatod o weithgareddau/arferion y dosbarth/yr ysgol gyfan.

Byddwch hefyd yn dechrau cynnwys y Dimensiwn Cymreig yn y pynciau a'r meysydd dysgu a phrofiad yn eich gwersi.

Cynnydd mewn Dwyieithrwydd

Byddwch yn parhau i astudio dwyieithrwydd yng nghyd-destun y Cwricwlwm Cymreig, a'r gwahanol ffyrdd y mae hyn yn cael sylw yn y gwahanol fathau o ysgolion (cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg). Byddwch hefyd yn astudio nodau ac amcanion addysg ddwyieithog o wahanol safbwyntiau, yn ystyried addysg Saesneg fel iaith Ychwanegol ac yn edrych ar y materion penodol sy'n gysylltiedig ag asesu disgyblion dwyieithog. Ar ôl hynny, byddwch yn ystyried y deilliannau disgwyliedig a realistig ar gyfer gwahanol fathau o ddisgyblion dwyieithog. Byddwch yn dod i wybod am y polisiau iaith sydd ar waith mewn ysgolion, a strategaethau penodol sy'n cael eu cynnwys yn y cwricwlwm i roi sylw i sgiliau iaith disgyblion, a dod i ddeall y rhain.

Cyflwyno wedi'i lywio gan ymchwil ac addysgu seiliedig ar ymchwil

Mae dysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd ag ymchwil yn gefn iddo'n sail i gynnwys a chyflwyniad y modiwl hwn a chaiff ei gyflwyno mewn ffordd sy'n cyfleu sut y cyfunir theori ac ymarfer. Yn y modiwl hwn byddwn yn cyflwyno ac yn disgrifio'n glir gryfderau a gwendidau tystiolaeth yn yr ymarfer diweddaraf sy'n seiliedig ar theori a thystiolaeth ac sy'n sail i'r addysgeg a'r arferion dosbarth a gaiff eu trafod. Bydd cynnwys y modiwl yn eich cyflwyno i bwysigrwydd datblygu eich gallu i fod yn ddefnyddwyr ac yn gynhyrchwyr ymchwil a datblygu eich gwybodaeth o'r sbectrwm ymchwil sy'n llywio ymarfer dysgu yn ogystal ag arsylwi fel dull casglu data.

Arsylwi ac adfyfrio

Yn ogystal â'r cyflwyniad cychwynnol i addysgu effeithiol, bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar ddwy sgil ymchwil hanfodol i ymarferwyr: arsylwi ac adfyfrio. Byddwch yn defnyddio'r cwestiynau hyn i lunio eich adfyfyrdod ar eich ymarfer eich hun yn ogystal â'ch arsylwadau o eraill:

- Beth wnaeth y dysgwyr mewn gwirionedd?
- Beth oeddent yn ei ddysgu?
- Pa mor fuddiol oedd hynny?
- Beth wnes i? (Beth wnaeth yr athro/athrawes?)
- Beth wnes i ei ddysgu?
- Beth ydw i'n bwriadu ei wneud nesaf?

(Ebbutt, 1985, in Hopkins, D., 2014. *A teacher's guide to classroom research*. London, UK: McGraw-Hill Education).

Y Dyddlyfr Proffesiynol

Trwy gydol y modiwl bydd gennych lawer o gyfleoedd i arsylwi, ymarfer ac adfyfrio. Byddwch yn cadw nodiadau ymchwil mewn dyddlyfr proffesiynol sydd wedi'i lunio i gefnogi'ch cynnydd fel athro cyswllt newydd.

Pasbort Dysgu Personol (PDP)

Bydd angen i chi ysgrifennu ac uwchlwytho profiadau i'ch PDP tra ar leoliad, yn ogystal ag uwchlwytho tystiolaeth gefnogol (Darllenwch y tudalennau nesaf sy'n nodi pa fath o dystiolaeth y gallwch ei huwchlwytho).

Astudiaeth Gwers

Efallai y cewch gyfle, ochr yn ochr â'ch mentor, i ddefnyddio dull Astudiaeth Gwers (Cajkler et al., 2013).

Cajkler, W., Wood, P., Norton, J. and Pedder, D., 2013. Lesson study: towards a collaborative approach to learning in initial teacher education. *Cambridge Journal of Education*, 43(4), pp.537-554.

Astudiaeth Gwers

Amcanion

- i **AC** gyd-gynllunio gydag athrawon arbenigol mewn cyd-destun;
- i **fentoriaid** ac **AC** arsylwi a dadansoddi'r dysgu;
- i nodi goblygiadau ar gyfer addysgeg pwnc benodol.


Mae mentoriaid ac **AC** yn ymgyswngi ag Astudiaeth Gwers gan ddefnyddio deunyddiau ar-lein a mynychu sesiynau SAU. Mae yn deall yr angen i ganolbwyntio ar arsylwi dysgu (nid strategaethau addysgu nac ymddygiad) ac mae'r mentoriaid yn creu hafan ddiogel i'r **AC**.

Addysgir y wers ddiwygiedig gan yr **AC** i ddosbarth gwahanol (neu gwrs olynol i'r un dosbarth) a bydd y dysgwyr yn cael eu harsylwi gan y **mentor**. Yna bydd dadansoddiad y wers yn cyfrannu at aseiniad yr **AC**

Mae'r **mentor** a'r **AC** yn gwerthuso'r wers gan ddefnyddio'r nodiadau'r **AC**. Mae'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y dysgu; ni fwriedir i'r **mentor** fodelu strategaethau addysgu da i'w dynwared gan yr **AC**. Mae'r wers wreiddiol yn cael ei mireinio o ganlyniad i'r dadansoddiad o ddysgu'r myfyrwyr achos.

Bydd y **mentor** a'r **AC** yn adnabod rhwystr benodol sydd gan eu dysgwyr gydag agwedd o'r pwnc dan sylw. Ar ôl i'r ffocws gael ei ddevis, mae'r **mentor** a'r **AC** yn cynllunio'r wers ymchwil yn fanwl, gan ganolbwyntio ar y deilliannau dysgu arfaethedig ar gyfer y dosbarth cyfan. Maent wedi yn dewis tri disgybl targed i'w harsylwi yn ystod y wers.

Addysgir y wers gyntaf gan y **mentor**, yr ymarferydd arbenigol, tra bo'r **AC** yn arsylwi dysgu'r tri dysgwr dan sylw. Cymerir nodiadau manwl gan yr **AC** a chaiff dadansoddiad dilynol o'r wers ymchwil ei gyfoethogi gan sgrysiu gyda'r disgyblion targed.



Amser Mentor

Cyfarfod cychwynnol gyda'r arsylwi a'r adolygu dilynol yn ystod cyfarfodydd mentoriaid.

Aseiniad AC

AC i ysgrifennu adroddiad fel rhan o'r Portffolio Beirniadol

Sail ddamcaniaethol

Dangoswyd bod astudiaeth gwers (Lewis, 2000) yn annog ac yn datblygu cydweithredu o fewn cymunedau dysgu proffesiynol. Mae addasu'r model i AGA yn awgrymu bod astudio gwrsi yn offeryn effeithiol ar gyfer datblygu **mentoriaid** yn ogystal â chyflymu cynnydd **AC** (Cajkler et al., 2013).

Pedwarawd Gwybodaeth

Mae'r offeryn adfyfyrion hwn yn set o gwestiynau; maent wedi eu dosbarthu yn ôl pedwar math o wybodaeth.

Gwybodaeth sylfaen	Gwybodaeth drawsnewid
<p>Beth wnaeth yr addysgu a'r dysgu yn y wers ei ddatgelu ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none">• gwybodaeth bwnc yr athro;• eu gwybodaeth o'r cwricwlwm;• eu daliadau ynghylch natur y pwnc;• eu daliadau ynghylch addysgu a dysgu;• eu gwybodaeth am y disgyblion?	<p>Pa weithgareddau athro (arddangosiadau, gwaith ymarferol, deunyddiau hyfforddi ac asesu) a ddefnyddiwyd gan yr athro i hwyluso dysgu'r disgyblion?</p> <p>Pam y gwnaethant ddewis y dulliau hynny?</p> <p>A oedd yn glir i'r disgyblion beth yr oeddent i fod i'w wneud, pam roeddent yn ei wneud a beth fyddent yn ei ddysgu?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gefnogi'r disgyblion i ddeall cysyniadau?</p> <p>Beth wnaeth helpu'r disgyblion i ddysgu? (Pryd wnaeth y disgyblion ddysgu fwyaf yn ystod y wers?)</p>
Gwybodaeth gyswllt	Gwybodaeth wrth gefn
<p>Sut wnaeth yr athro gysylltiadau rhwng gweithgareddau <u>yn ystod y wers</u>?</p> <p>Sut wnaeth yr athro sicrhau dilyniant rhesymegol o weithgareddau?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gysylltiadau â'r dysgu blaenorol a'r dysgu sydd i ddod?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gysylltu'r amcanion dysgu â'r gweithgareddau?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gysylltu'r gweithgareddau â'r cwricwlwm?</p>	<p>Sut yr ymatebodd yr athro i syniadau'r myfyrwyr?</p> <p>A oedd achosion o ddigwyddiadau heb eu cynllunio yn digwydd: e.e. myfyriwr yn gofyn cwestiwn annisgwyl, diffyg adnoddau neu rywbeth 'yn mynd o'i le'? Os felly, beth oeddent a beth oedd eu harwyddocâd?</p> <p>Sut wnaeth yr athro ymateb/ymdopi?</p>

Cyfrifoldebau Proffesiynol

Yn ystod y chwe wythnos mewn lleoliad ysgol rhwydwaith, dylech gwblhau'r gweithgareddau canlynol:

- Gwrandewch ar ddysgwyr yn darllen a'u cefnogi lle bo'n briodol ac o dan gyfarwyddyd y mentor;
- Mynd gydag athro ar ddyletswydd iard un diwrnod yr wythnos;
- Cynorthwyo gyda dyletswyddau gweinyddol y dosbarth dan arweiniad y mentor;
- Paratoi arddangosfa o waith plant/darpariaeth well i gefnogi'r dysgu

Gofynion Cyfreithiol

Gofynnir i chi wneud y canlynol:

- cael copi o bolisi'r ysgol ar Amddiffyn Plant, Gwrth-fwlio, Disgyblaeth ac Atal (gall hwn fod yn gopi electronig neu gopi caled).
- sicrhau eich bod yn llenwi'r dudalen diogelu plant ar gyfer yr ysgol Arweiniol a'r ysgol Rwydwaith yn eich Dyddlyfr Proffesiynol.
- cwblhau'r cod ymddygiad proffesiynol ar-lein cyn i'r lleoliad ddechrau.

Wyth Cam Datblygiad Athrawon Cyswllt Caban

Cam 1

Ffocws: Dechrau deall sut mae cynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau ac ar wahanol gamau datblygu (datblygiad cyfannol) - mae'n cefnogi'r asesu *Byddwch wedi cwblhau cam 1 ym Mlwyddyn 1*

Cam 2

Canolbwynt: Cyfnerthu ac adeiladu ar flwyddyn 1. Datblygu cynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau (blynyddoedd 3-6) a rheoli ymddygiad a dysgu. Dechrau deall asesu a'i effaith ar ddysgu disgyblion.

Datblygu ymarfer: Addysgu micro / addysgu fel tîm / addysgu fesul cam dan arweiniad mentor (hyd at 40%)

Cam 3

Canolbwynt: Cyfnerthu ac adeiladu ymhellach ar gynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau (datblygiad cyfannol)/canolbwyntio ar gynllunio tymor byr. Dechrau nodi ffyrdd y gellir ymgorffori cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a datblygu ymwybyddiaeth o addysgeg pwnc-benodol (Astudiaethau Pwnc 1.1, Llythrennedd a Rhifedd). Adnabod y sgiliau llythrennedd a rhifedd personol sydd angen eu datblygu

Datblygu ymarfer: symud ymlaen fel bo'n briodol o ficro ddysgu/addysgu fel tîm i fwy o annibyniaeth a gwersi llawnach (cyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno 3-5 awr o wersi).

Cam 4

Canolbwynt: Cyfnerthu ac adeiladu ymhellach ar gynllunio ar gyfer dysgu (datblygiad cyfannol).

Datblygu ymarfer: Annibyniaeth a gwersi llawnach (cyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno 8 awr o wersi).

Portffolio Cymraeg - casglu tystiolaeth ar gyfer Rhan B o'ch Portffolio Cymraeg.

Cam 5 (mewn SAU - yn dilyn ymarfer)

Canolbwynt: Trafod ac adfyfrio ar ail brofiad ysgol

Cam 6 (Blwyddyn 3)

Canolbwynt: Arsylwi beirniadol ar ymarfer effeithiol. Cynllunio ac addysgu mewn cyd-destun newydd.

Datblygu ymarfer: Annibyniaeth gynyddol a gwersi cyflawn (cyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno 12 awr o wersi).

Datblygu arbenigedd mewn dulliau ymchwil (ymchwil weithredol a dulliau casglu data pellach).

Arsylwi ac adfyfrio yn y cyfnod cynradd blaenorol.

Cam 7-8 Bydd y rhain yn cael eu datblygu ym Mlwyddyn a 3.

Amserlen Profiad Ysgol

Allwedd

Ysgol rwydwaith
Ysgol arweiniol
Cyfrifoldebau mentor

Byrfoddau

MARh - Mentor Arweiniol y Rhwydwaith

MY - Mentor Ysgol

APY - Adroddiad Profiad Ysgol

PF - Prif Fentor

FfAA - Ffurflen Asesu Addysgeg

MDaPh - Maes Dysgu a Phrofiad

AC – Athrawon Cyswllt

Gallai'r holl weithgareddau a amlinellir ar y tudalennau nesaf newid yn ôl gofynion ysgol a'r pandemig Codid.

Cyn Cam 2 cynhelir seminar dulliau ymchwil a fydd yn disgrifio'r canlynol: sut mae arsylwi; sut mae gwranddo; beth i chwilio amdano; gweithio'n foesebol; natur tystiolaeth yn yr ystafell ddosbarth; cadw dyddlyfr.

Oni nodir yn wahanol, cynhelir yr holl arsylwadau a chyfleoedd i addysgu yn y dosbarth Dysgu Sylfaenol.

Ar y tudalennau canlynol, mae gweithgareddau wedi eu cynllunio i hwyluso a strwythuro arsylwi ac adfyfrio gan Athrawon Cyswllt . Awgrymiadau yw'r drefn a'r amseru a ddangosir, ac efallai y bydd yr ysgol, yr adran a'r mentor eisiau ad-drefnu'r gweithgareddau i gyd-fynd â'u hanghenion.

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p>Croeso gan y Pennaeth a gwybodaeth hanfodol am ddiogelu (Prif Fentor)</p> <p>Athrawon Cyswllt yn arsylwi dosbarth cyfan gan ganolbwyntio ar lafaredd/siarad (sgwrs athro, sgwrs disgyblion a rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion).</p> <p>Nodi enghreifftiau posib o'r pedwar diben dysgu.</p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel cymhorthydd addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera (ffôn/I-pad) i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd.</p> <p>Canolbwyntio ar gyfathrebu (gan gynnwys Cymraeg bob dydd/gloywi iaith)</p> <p>Adfyfyrion: Ar ddiwedd pob dydd, bydd Athrawon Cyswllt yn adfyfyrion ar y dysgu a arsylwyd ganddynt. Gwneud nodiadau yn y dyddlyfr proffesiynol.</p> <p>Trafod gydag athro cyswllt arall.</p>	<p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol</p> <p>Athrawon Cyswllt yn arsylwi dosbarth cyfan gan ganolbwyntio ar lafaredd/siarad (sgwrs athro, sgwrs disgyblion a rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion).</p> <p>Nodi enghreifftiau posib o'r pedwar diben dysgu.</p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel cymhorthydd addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera (ffôn/I-pad) i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd.</p> <p>Adfyfyrion: Ar ddiwedd pob dydd, bydd Athrawon Cyswllt yn adfyfyrion ar y dysgu a arsylwyd ganddynt. Gwneud nodiadau yn y dyddlyfr proffesiynol.</p> <p>Trafod gydag athro cyswllt arall.</p>	<p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol</p> <p>Athrawon Cyswllt yn arsylwi dosbarth cyfan gan ganolbwyntio ar lafaredd/siarad (sgwrs athro, sgwrs disgyblion a rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion).</p> <p>Nodi enghreifftiau posib o'r pedwar diben dysgu.</p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel cymhorthydd addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera (ffôn/I-pad) i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd.</p> <p>Adfyfyrion: Ar ddiwedd pob dydd, bydd Athrawon Cyswllt yn adfyfyrion ar y dysgu a arsylwyd ganddynt. Gwneud nodiadau yn y dyddlyfr proffesiynol.</p> <div style="border: 1px solid black; padding: 5px; margin-top: 10px;"> <p>Cyfrifoldebau mentoriaid Cyflwyniad i'r cyfnod a'r dosbarth; Ystyriaethau ymarferol (lle cedwir pethau ac ati); Dulliau o weithio; Rhoi sylw i faterion iechyd a diogelwch yn ôl yr angen; Adolygu'r tridiau cyntaf - o sgwrs dosbarth cyfan i weithgareddau grŵp bach. Mentor i gysylltu â'r Tiwtor Cyswllt ar y Dydd Iau neu Ddydd Gwener os oes ganddynt unrhyw bryderon cynnar.</p> </div>	<p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol Arsylwi grŵp bach gan ganolbwyntio ar sgiliau llythrennedd ehangach (darllen ac ysgrifennu) a chanolbwyntio'n fanylach ar sgwrs disgybl-disgybl.</p> <p>Parhau i nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> <p>Prynhawn: Arsylwi strategaethau rheoli dosbarth cyfan.</p> <p>Nodi strategaethau allweddol sy'n cael eu defnyddio i gefnogi trefnu a rheoli disgyblion.</p> <p>Gwneud nodiadau manwl o'r strategaethau a arsylwyd, gwahaniaethu rhwng unigolion, yr effaith y mae strategaethau yn ei chael ar ddisgyblion a dysgu, sut mae disgyblion yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am ymddygiad a dysgu.</p> <p>Adfyfyrion: Ar ddiwedd pob dydd, bydd Athrawon Cyswllt yn adfyfyrion ar y dysgu a arsylwyd ganddynt. Gwneud nodiadau yn y dyddlyfr proffesiynol ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth wnaethoch sylwi arno? • Sut oedd y disgyblion yn siarad? • Beth wnaethon nhw mewn grwpiau? <p>Sut wnaethon nhw ryngweithio?</p>	<p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol. Bore - Dysgu gwers fel tîm, gwers wedi ei chynllunio gan y mentor*; Athrawon Cyswllt yn cymryd swyddogaeth gefnogol allweddol, megis cymryd grŵp o ddisgyblion; gweithredu fel cymhorthydd addysgu gydag unigolion. Cofnodi gwaith disgyblion os oes angen.</p> <p>Prynhawn – Trafodaeth gyda mentor gofyniad micro-ddysgu 1 a 2 at ddydd Iau a dydd Gwener nesaf. Nodi grŵp o ddisgyblion i addysgu. Mentor i gynnig arweiniad gyda chynllunio gan ddefnyddio templed CaBan.</p> <p>Athrawon Cyswllt i ddechrau cynllunio micro-ddysgu 1 a 2 . Athrawon Cyswllt i bostio eu myfyrdodau (tua 300 gair) ar eu PDP (creu profiad).</p>

Gellid cyfnewid gweithgareddau'r bore gyda gweithgareddau'r prynhawn, os yw hyn yn gweithio'n well i'r Athrawon Cyswllt a'r mentoriaid

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p>Diwrnod cyfan yn yr Ysgol Arweiniol (Brychdyn)</p> <div style="border: 1px solid black; padding: 5px; margin-top: 10px;"> <p>Athrawon Cyswllt i sicrhau bod cynlluniau gwers micro-ddysgu 1 a 2 wedi eu hanfon at y mentor i'w gwirio a'u hanodi (os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes dros y penwythnos).</p> </div>	<p>Bore - Dysgu gwers fel tîm, gwers wedi ei chynllunio gan y mentor*; AC yn cymryd swyddogaeth gefnogol allweddol gan gymryd grŵp o ddisgyblion; gweithredu fel cymhorthydd addysgu gydag unigolion. Canolbwyntio ar ddechrau a diwedd gwersi, yn enwedig asesu ar gyfer dysgu. Parhau â thrawsnewidiadau; rheoli'r amgylchedd dysgu a rheoli ymwneud y disgyblion.</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: Athrawon Cyswllt yn adfyfrio ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau yn eu dyddlyfr proffesiynol, gan gofio'r hyn a ddwedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi'r dysgu.</p> <p>Arsylwi Strategaethau rheoli dosbarth cyfan.</p> <p>Prynhawn Trafodaeth rhwng y mentor a'r AC am y cynlluniau gwersi micro-ddysgu at ddydd Iau a dydd Gwener. Athrawon Cyswllt i newid os oes angen a dangos eto i'r mentor i'w gymeradwyo. Creu a pharatoi adnoddau.</p>	<p>Gwersi'r bore</p> <p>Bore - Tîm i addysgu gwers wedi ei chynllunio gan y mentor*; Athrawon Cyswllt yn cael mwy o gyfrifoldeb i addysgu grŵp bach o ddisgyblion ;</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: Athrawon Cyswllt yn adfyfrio ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau yn eu dyddlyfr proffesiynol, gan gofio'r hyn a ddwedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi'r dysgu.</p> <p>Arsylwi Strategaethau rheoli dosbarth cyfan.</p> <p>Prynhawn – Athrawon Cyswllt i sicrhau bod y cynlluniau gwersi a'r adnoddau yn barod at yfory a dydd Gwener.</p> <p>Adfyfrio: Athrawon Cyswllt i wneud nodiadau yn y dyddlyfr proffesiynol, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes.</p>	<p>Micro-ddysgu 1</p> <p>Bore - Cynllunio ac addysgu'r gweithgaredd â chanolbwynt penodol i grŵp o ddisgyblion.</p> <div style="border: 1px solid black; padding: 5px; margin-top: 10px;"> <p>Mentor i ysgrifennu Gwerthusiad yn nyddlyfr proffesiynol AC</p> </div> <p>Prynhawn - Adfyfrio Estynedig</p> <p>Athrawon Cyswllt i adfyfrio ar eu cynllunio a'u haddysgu ar gyfer Micro-ddysgu 1 yn eu dyddlyfr proffesiynol. Defnyddio'r Pedwarawd Gwybodaeth (gweler tudalen 5) i gefnogi adfyfrio ar gynllunio ac addysgu a'r effaith a gafodd hyn ar ddysgu (Athrawon Cyswllt hefyd i lenwi eu hadran ar werthusiad y bore yma).</p> <p>Trafod/gwirio'r ail gynllun micro-ddysgu gyda'r mentor. Sicrhau bod adnoddau yn barod</p>	<p>Cyflwyniad a sesiwn lawn (wedi ei gynllunio gan y mentor).</p> <p>Mentor i gefnogi'r Athrawon Cyswllt</p> <p>Micro-ddysgu 2 - Parhau gyda'r un grŵp o ddisgyblion â ddoe.</p> <p>Mentor i ysgrifennu gwerthusiad yn nyddlyfr proffesiynol Athrawon Cyswllt .</p> <p>Prynhawn - Adfyfrio Estynedig</p> <p>Peth ohono i gael ei arwain gan y mentor. Dechrau edrych ymlaen at ddychweliad Athrawon Cyswllt ym mis Ionawr – sesiynau addysgu grŵp 1 a 2</p> <p>Athrawon Cyswllt i adfyfrio ar eu cynllunio a'u haddysgu ar gyfer Micro-ddysgu 2 yn eu dyddlyfr proffesiynol (Athrawon Cyswllt i lenwi eu hadran o werthusiad y bore yma), yn ogystal â thîm yn addysgu cyflwyniad dosbarth cyfan a sesiwn glo.</p> <p>Pasbort dysgu proffesiynol - ysgrifennu adroddiad ar brofiad adfyfrio ar addysgu tîm a micro-ddysgu'r wythnos ac uwchlytho i'r pasbort dysgu proffesiynol.</p>

Cyfrifoldebau mentoriaid: Rhannu a thrafod cynlluniau ar gyfer addysgu mewn tîm/ microaddysgu. Gwirio ac anodi cynlluniau ar gyfer micro-ddysgu 1 a 2.

Sicrhau bod AC wedi deall gweithgareddau sbardun/tasgau microaddysgu.

Ystyried arsylwadau ar gyfer Cymraeg Bob Dydd (os yw'n bosib ffilmio grwpiau blynyddoedd eraill i'w harsylwi).

Briffio'r AC ar y gwersi sydd i'w haddysgu yn wythnos 3 ym mis Ionawr, gan amlygu pa wersi y mae'r Athrawon Cyswllt yn llwyr gyfrifol amdanynt.

Briffio AC ynghylch addysgu mewn tîm ar gyfer wythnos 3 ym mis Ionawr.

Cysylltu â'r tiwtor cyswllt os oes unrhyw bryder - dylai'r mentor benderfynu cyn gynted â phosib a oes angen cynllun cymorth ychwanegol ar yr AC

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher
<p>Addysgu Grŵp 1</p> <p>Bore - Nodi grŵp o ddisgyblion gyda'r mentor ymlaen llaw. Cynllunio ac addysgu gweithgaredd â chanolbwynt penodol.</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: Athrawon Cyswllt yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddwedwyd ac a wnaed. Defnyddiwch y Pedwarawd Gwybodaeth i'ch cynorthwyo i adfyfrio ynglŷn â chynllunio ac addysgu a'r effaith a gafodd hyn ar y dysgu.</p> <p>Prynhawn - Adfyfrio Estynedig a Chynllunio</p> <p>Trafod cynllun Addysgu Grŵp 2 gyda'r mentor.</p> <p>Athrawon Cyswllt yn adfyfrio ar y dysgu ac yn cynllunio ar gyfer addysgu grŵp 2.</p>	<p>Addysgu Grŵp 1</p> <p>Parhau â'r un grŵp o ddisgyblion.</p> <p>Yn dilyn cyflwyniad ddoe, parhau i ddatblygu dysgu.</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: Athrawon Cyswllt yn adfyfrio ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddwedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi'r dysgu.</p> <p>Defnyddiwch y Pedwarawd Gwybodaeth i'ch cynorthwyo i adfyfrio ynglŷn â chynllunio ac addysgu a'r effaith a gafodd hyn ar y dysgu.</p> <p>Rhywfaint o'r prynhawn - Gwerthusiad Cyflawn yn y Dyddlyfr Proffesiynol.</p>	<p>Gweithredu'r Astudiaeth Gwers, mae'r mentor yn dysgu hanner y dosbarth ac yna bydd yr AC yn dysgu hanner arall y dosbarth os yn bosib.</p> <p>Athrawon Cyswllt yn dechrau cyflwyno i'r dosbarth cyfan a chymryd cyfrifoldeb dros strwythurau allweddol o fewn y drefn ddyddiol. (cofrestru, darllen tawel, ymarfer corff ac ati).</p> <p>Dylai Athrawon Cyswllt addysgu oddeutu 6 - 8 awr yn Wythnos 3 a 4. Os nad yw hyn yn bosib, dylid gweithredu'r cynllun 'mwy o gefnogaeth'.</p> <p>Athrawon Cyswllt i ddechrau cymryd rhan yn y 'cyfrifoldebau y tu allan i'r dosbarth' (symud o amgylch yr adeilad / goruchwyllo amser egwyl, goruchwyllo'r ystafell gotiau ac ati)</p> <p>Arsylwi ymarferwyr - canolbwyntio ar gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd.</p> <p>Gwers wedi'i chynllunio gan y mentor; Athrawon Cyswllt yn cael mwy o gyfrifoldeb i addysgu grŵp bach o ddisgyblion ;</p> <p>Athrawon Cyswllt yn cynllunio ac yn cyflwyno dau weithgaredd byr i'r dosbarth cyfan i gefnogi lles y disgyblion (20-30 munud).</p> <p>Defnyddio'r y gweithgaredd terfynol i gefnogi FfAA 1.</p> <p>FfAA 1 i'w wneud yn ystod Wythnos 4 gan y mentor. Arsylwi gwers Mentor i lenwi'r FfAA a'i anfon at y tiwtor cyswllt pan fydd wedi ei gwblhau ganddynt hwy a'r Athrawon Cyswllt .</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: Athrawon Cyswllt yn adfyfrio ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddwedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi'r dysgu. Cwblhau'r Gwerthusiadau yn y dyddlyfr.</p> <div style="border: 1px solid black; padding: 5px; margin-top: 10px;"> <p>Mentor i gwblhau 'Gwerthusiad' bob tro mae'r Athrawon Cyswllt yn addysgu a gwirio bod yr Athrawon Cyswllt wedyn yn cwblhau gweddill y gwerthusiad.</p> </div>

O dan arweiniad Mentor: Rhannu a thrafod cynlluniau ar gyfer gwersi addysgu grŵp/astudiaeth gwers. Mentor i anodi cynlluniau.

Sicrhau bod Athrawon Cyswllt wedi deall y gweithgareddau sbardun/y tasgau addysgu grŵp.

Cwblhau FfAA 1 yn Wythnos 4. Ystyried arsylwadau ynghylch Cymraeg Bob Dydd (arsylwi grwpiau mewn blynyddoedd eraill).

Trafod a nodi ail grŵp o ddisgyblion i ail-wneud proses addysgu grŵp 1 a 2.

Briffio'r Athrawon Cyswllt ar y gwersi sydd i'w haddysgu dros yr wythnosau nesaf, gan amlygu pa wersi y mae'r Athrawon Cyswllt yn llwyr gyfrifol amdanynt. Mentor i anodi cynlluniau.

Athrawon Cyswllt i gynllunio gan ddefnyddio templed CaBan.

Briffio Athrawon Cyswllt ynghylch addysgu mewn tîm ar gyfer yr wythnos nesaf.

Cysylltu â'r tiwtor cyswllt os oes unrhyw bryder - dylai'r mentor benderfynu cyn gynted â phosib a oes angen cynllun cymorth ychwanegol ar yr AC

Bydd Athrawon Cyswllt yn cynllunio ac yn addysgu gwersi llawn fel y cytunir gyda'r mentor ac yn cymryd cyfrifoldeb am tua 8-12 awr o wersi/ddarpariaeth.

Dydd Llun – Dydd Gwener	Cyfrifoldebau'r mentor
<p>Diwrnod Ysgol Arweiniol yn ystod Wythnos 6 ar Ddydd Llun 13 Chwefror</p> <p>AC yn cynllunio a chyflwyno gwersi grŵp/hanner dosbarth a dosbarth cyfan sy'n cynnwys y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd. Cynlluniau gwersi i'w rhannu â'r mentor o leiaf 48 awr ymlaen llaw. Mentor i anodi cynlluniau gwersi a chynnig cefnogaeth ac arweiniad. Dylid ysgrifennu pob cynllun gwers ar dempled CaBan.</p> <p>AC i gynllunio cyfres o 3 chyfle dysgu gwahaniaethol a cham wrth gam, gan sicrhau bod y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd yn amlwg. Gellir eu cyflwyno i grwpiau / hanner dosbarth / dosbarth cyfan.</p> <p>AC i gynllunio'n annibynnol gyda chefnogaeth mentor.</p> <p>Dylai AC addysgu oddeutu 8 - 10 awr mewn sesiynau dosbarth cyfan cyn gynted â phosib (os nad yw hyn yn bosib, dylid rhoi'r cynllun cymorth estynedig ar waith erbyn diwedd wythnos 6.</p> <p>FfAA 2 (Wythnos 6) - Gwers a arsylwyd ar y cyd gan y mentor a'r tiwtor cyswllt.</p> <p>AC yn parhau i gymryd cyfrifoldeb dros strwythurau allweddol o fewn y drefn ddyddiol. (cofrestru, darllen tawel, ymarfer corff ac ati).</p> <p>AC yn dechrau cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu ymhellach y cyfleoedd Cymraeg e.e. sesiwn Helpwr Heddiw</p> <p>AC yn parhau i gymryd rhan yn y 'cyfrifoldebau y tu allan i'r ystafell ddosbarth (symud o amgylch yr adeilad / goruchwyllo amser egwyl, goruchwyllo'r ystafell gotiau ac ati)</p> <p>Arsylwi ymarferwyr: canolbwyntio ar strategaethau gwahaniaethu ac ymddygiad ar gyfer dysgu.</p> <p>AC i barhau i gefnogi ac arsylwi, gan edrych ar anghenion dysgu ychwanegol, ecwiti, asesu ar gyfer dysgu, (8 awr)</p> <p>AC i ddadansoddi cyfres gysylltiedig o wersi a arsylwyd - gan gynnwys Asesu ar gyfer Dysgu, delweddau o waith disgyblion, adfyfrio ar addysgeg a ddefnyddiwyd.</p> <p>AC i barhau i adfyfrio a chwblhau arsylwadau a gwerthusiadau yn y dyddlyfr proffesiynol ar ddiwedd y dydd ac uwchlwytho asedau a thystiolaeth i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.</p> <p>Efallai y bydd cyfle yn codi i gwblhau Astudiaeth Gwers</p>	<p>Mentor i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwrdd ag AC yn ffurfiol unwaith yr wythnos. • wirio bod AC yn cwblhau'r 'arsylwadau' yn y dyddlyfr proffesiynol o leiaf ddwywaith yr wythnos. • ysgrifennu sylwadau bob hyn a hyn. • gwblhau 'gwerthusiad' bob tro mae'r AC yn addysgu. • wirio bod yr AC wedyn yn cwblhau gweddill y gwerthusiad. • arsylwi, adolygu a llenwi Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA 2 yn Wythnos 6) a gosod targedau. • wirio cynllunio ac anodi cynlluniau gwersi. • anfon y FfAA at y tiwtor cyswllt pan fydd wedi ei gwblhau ganddynt hwy a'r AC. • wirio bod y FfAA yn cael eu huwchlwytho i basbort dysgu proffesiynol AC a sicrhau bod AC yn uwchlwytho tystiolaeth arall hefyd (AC i rannu cyswllt y pasbort dysgu proffesiynol gyda'r ddau fentor a'r tiwtor cyswllt). <p>Cysylltu â'r tiwtor cyswllt os oes unrhyw bryder - dylai'r mentor benderfynu cyn gynted â phosib a oes angen cynllun cymorth ychwanegol ar yr AC</p>

Bydd AC yn cynllunio ac yn addysgu gwersi llawn fel y cytunir gyda'r mentor ac yn cymryd cyfrifoldeb am tua 10-12 awr o wersi/ddarpariaeth.

Dydd Llun – Dydd Gwener	Cyfrifoldebau'r mentor
<p>AC i gynllunio a chyflwyno gwersi grŵp/hanner dosbarth a dosbarth cyfan sy'n cynnwys y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd. Cynlluniau gwersi i'w rhannu â'r mentor o leiaf 48 awr ymlaen llaw. Dylid ysgrifennu pob cynllun gwera ar dempled CaBan.</p> <p>1) Gyda dim ond ychydig o gefnogaeth gan y mentor, ymgysylltu â'r disgyblion (Llais disgyblion) a chynllunio 3 chyfle dysgu (o fewn y pwnc, o lyfr/profiad dysgu ac ati)</p> <p>2) Cynllunio cyfres o gyfleoedd dysgu gwahaniaethol a cham wrth gam, gan sicrhau bod y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd yn amlwg, gan gyflwyno i'r dosbarth cyfan.</p> <p>AC i gynllunio cyfres o 3 chyfle dysgu gwahaniaethol a cham wrth gam, gan sicrhau bod y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd yn amlwg. Gellir eu cyflwyno i grwpiau / hanner dosbarth / dosbarth cyfan.</p> <p>AC i gynllunio'n annibynnol gyda chefnogaeth mentor.</p> <p>Dylai AC addysgu oddeutu 10 - 12 awr mewn sesiynau dosbarth cyfan cyn gynted â phosib (os nad yw hyn yn bosib, dylid rhoi'r cynllun cymorth estynedig ar waith erbyn diwedd wythnos 6.</p> <p>AC yn parhau i gymryd cyfrifoldeb dros strwythurau allweddol o fewn y drefn ddyddiol. (cofrestru, darllen tawel, ymarfer corff ac ati).</p> <p>AC yn cynllunio gweithgaredd Cymraeg ac yn ei gyflwyno bob dydd (os yn bosib) i grŵp/hanner dosbarth/dosbarth cyfan. AC yn cynllunio a chyflwyno gwera Gymraeg (tasg Portffolio Cymraeg);</p> <p>AC yn parhau i gymryd rhan yn y 'cyfrifoldebau y tu allan i'r ystafell ddosbarth (symud o amgylch yr adeilad / goruchwylio amser egwyl, goruchwylio'r ystafell gotiau ac ati)</p> <p>Arsylwi ymarferwyr. - canolbwyntio ar strategaethau gwahaniaethu ac ymddygiad ar gyfer dysgu.</p> <p>AC i barhau i gefnogi ac arsylwi, gan ganolbwyntio ar ADY, MAT, ymddygiad ar gyfer dysgu (8 awr).</p> <p>AC i ddadansoddi cyfres gysylltiedig o wersi a arsylwyd - gan gynnwys Asesu ar gyfer Dysgu, delweddau o waith disgyblion, adfyfrio ar addysgeg a ddefnyddiwyd.</p> <p>AC i barhau i adfyfrio a chwblhau arsylwadau a gwerthusiadau ar ddiwedd y dydd ac uwchlwytho asedau a thystiolaeth i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.</p> <p>Efallai y bydd cyfle yn codi i gwblhau Astudiaeth Gwers</p>	<p>Mentor i</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwrdd ag Athrawon Cyswllt yn ffurfiol unwaith yr wythnos. • anodi cynlluniau gwera a chynnig cefnogaeth ac arweiniad. • wirio bod Athrawon Cyswllt yn cwblhau'r 'arsylwadau' yn y dyddlyfr proffesiynol o leiaf ddwywaith yr wythnos. • ysgrifennu sylwadau bob hyn a hyn. • gwblhau 'Gwerthusiad' bob tro mae'r Athrawon Cyswllt yn addysgu. • wirio bod yr Athrawon Cyswllt wedyn yn cwblhau gweddill y gwerthusiad. • arsylwi, adolygu a llenwi Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA 3 yn Wythnos 7) a gosod targedau. • wirio cynllunio ac anodi cynlluniau gwera. • wirio bod y FfAA yn cael eu huwchlwytho i Basbort Dysgu Proffesiynol Athrawon Cyswllt a sicrhau bod Athrawon Cyswllt yn uwchlwytho tystiolaeth arall hefyd (Athrawon Cyswllt i rannu cyswllt y Pasbort Dysgu Proffesiynol gyda'r ddau fentor a'r tiwtor cyswllt). • drafod FfAA 3 gyda'r tiwtor cyswllt er mwyn cwblhau'r adroddiad profiad ysgol. • ysgrifennu adroddiad profiad ysgol a'i rannu gyda'r tiwtor cyswllt erbyn dydd Mercher 8 Mawrth. • rannu a thrafod gydag Athrawon Cyswllt ddydd Iau/dydd Gwener Wythnos 8.